

Gwybodaeth i rieni Tymor yr Haf 2018

*Dyma grynodeb o'r hyn a gyflwynir i'r
plant yn ystod Tymor yr Haf:*

Mathemateg - Blwyddyn 3 a 4

Rhif - Deall a datrys problemau o fewn y pedwar gweithrediad, gan ddefnyddio dulliau mathemateg pen a dulliau ysgrifenedig. Trefnu, talgrynnu ac amcangyfrif rhifau. Parhau i ddysgu a deall tablau a chwblhau cwestiynau rhannu, gan ddeall am y gweddill. Cymharu ffracsiynau syml. Datrys problemau'n ymwneud ag arian a 'bywyd go iawn.'

Siâp a Mesurau - Gwaith amser ar gloc analog a digidol (12/24 awr), gan gynnwys problemau a defnyddio calendr. Datblygu gwaith siâp ymhellach, gan gynnwys gwaith cymesuredd ac onglau. Adolygu gwaith mesur, gan ddefnyddio cm a mm.

Trin data - Casglu, cyflwyno a dadansoddi data.

Gwyddoniaeth - Grymoedd a thrydan

Cynllunio, datblygu a gweithredu ymchwiliad sy'n hybu gwaith unigol, annibynnol, rhagfynegi a chynnig syniadau.

Defnyddio gwahanol fathau o ddulliau cofnodi canlyniadau. Yn ystod y tymor, bydd y disgyblion yn astudio'r canlynol: ffrithiant, magneteg, cylched trydanol, dargludyddion, liferi a disgyrchiant.

Addysg Grefyddol

Trafod gwaith elusennau ac edrych ar y logos.

Trafod sut oedd Iesu'n helpu pobl a dysgu am bum Piler Islam. Dysgu am rai prosiectau gan Cymorth Cristnogol ac Islamic Relief.

Sut y gallwn ni helpu pobl yn y gymuned ac yng Nghymru?

Mathemateg - Blwyddyn 5 a 6

Rhif - Deall gwerth rhifau hyd at 1 miliwn a rhifau i 3 lle degol. Adnabod lluosrifau cyffredin a ffactorau cyffredin dau rif. Defnyddio'r pedwar gweithrediad i ddatrys problemau'n ymwneud â 'bywyd go iawn.' Amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, 100 y 1000 neu'r rhif cyfan agosaf. Cyflwyno datganiadau algebra a sut i symleiddio mynegiadau. (blwyddyn 6 yn unig.)

Siâp a Mesurau - Adnabod enwau a nodweddion siapiau 3D. Dod o hyd i linellau cymesuredd a nodi cymesuredd cylchdro siapiau. Trosi rhwng unedau safonol amser ac amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau i'r degfed eiliad agosaf

Trin data - Casglu, cyflwyno a dadansoddi data. Defnyddio cymedr, can-olrif, modd ac amrediad i ddisgrifio set ddata.